Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 9.] MEDI, 1910. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Ymson y Myfyriwr.
Y Parch. H. M. Hughes a'r Undodiaid. R.J.J.
Y Parch. R. J. Campbell ar "Ufeern."
Anibyniaeth Bersonol mewn Undeb Cymdeithasol. C. J. Street, M.A., LL.B.
Zoroaster. J. Park Davies, B.A., B.D.
O Gwmtillery i'r Grand Canary. T. J. Williams.
Adolygiad.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

—TALIADAU.—

H. J., Nantymoel; Parch. S. E. B., Crumlin; H. W. Harris, Merthyr; J.P., Abercwmboi.

YN AWR YN BAROD.

"ENWOGION ABER DÂR,"

. . SEF . .

Byrr-nodion am gewri ymadawedig y . . Dref a'r Cylch. . .

GAN

BEN MORRIS (MYFYR TEIFI).

—o—

Pris, 1/-; trwy y Post, 1/2. Telerau—blaendal.

POB ARCHEBION I'W HANFON AT YR AWDWR—

The Bridge Press, Lampeter.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1910. [CYF. X. RHIF 9.

AR EDYN FFYDD.

DROS Y MORWYR.

(Ps. 107 : 23—30).

Y RHAI a änt mewn llongau i'r dòn,
A'u taith uwch mawrion ddyfroedd,
A welant ryfeddodau'r Iôn,
A hyn mewn eigion moroedd.

Gan ysgwyd a phendroi fel hyn,
Dull meddwyn, synai arnynt ;
Ar Dduw mewn ing y rhoisant lef ;
Daeth Ef a chymorth iddynt.

A'i air cyffrae dymhestloedd gwynt,
Y rhai a godynt dònau
Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
Ac ofn bob awr rhag angau.

Gwnaeth E'r ystorm yn dawel deg,
A'r tònau'n osteg gwastad ;
Yn llawen ddistaw doent i'r làn,
I'r man y b'ai'u dymuniad.

Cyffesent hwythau ger Ei fron
Ei fwynion drugareddau ;
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
Yn helaeth ryfeddodau.

Y PARCH. ARCHDDIACON EDMUND PRYS (1541—1624).

DYNERAF, garedicaf Dad, Tydi yr hwn a biau'r môr, a wyr ei gyfrinach ef mewn oriau gwynion a duon. Dymuniad ein henaid ydyw am iti gofio y morwr, preswylydd ei dònau. Pan fydd heulwen ar y dòn cynorthwya ef i fyfyrio y goreu. Pan ddaw y nos a'r storm i hawlio y dyfnder, ysprydoler ef i feddwl a chanu y goreu. Cadw dy dangnefedd yn ei yspryd, a llonydded dyfnfor ei brofiad o dan wynder y gymdeithas ddwyfol, nes y cyrhaedda i'r glanau gwynion ysprydolaf, pryd y dywed ei galon—a'r môr nid yw mwyach. Amen.

YMSON Y MYFYRIWR.

YN mywyd pob dyn—neu yn mŵyd y rhan fwyaf o ddynion—y mae un llecyn yr hoffa feddwl am dano, yn nghyfeiriad yr hwn y ceidw ei olwg trwy y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yr hwn, ar ol y dêl yr adeg iddo sangu arno, a ddŵg iechyd i'w gorph, adnewyddiad i'w yspryd, a heulwen i'w fywyd. Yr enw roddir i'r llecyn yw

Gwyliau.

Y mae yn air adnabyddus iawn. Adgyfyd adgofion fyrdd i feddwl y darllenydd yn ddiau wrth ei yngan—adgofion am lawer adeg ddifyr yn nghwmni hen gyfeillion, am lawer o gyfeillion na fyddent erioed wedi dod tu fewn i derfyngylch ei adnabyddiaeth oni bai am dano, am lawer gorphwysdra felus oddiwrth lafur a dyledswyddau cyffredin bywyd. Dyna brofiad y rhan fwyaf o'r rhai a lanwant wahanol gylchoedd o ddefnyddioldeb mewn cymdeithas; ie, yn wir, dyna brofiad hyd yn oed lawer o'r rhai "na lafuriant ac na nyddant"; oherwydd mynant hwythau hefyd iddynt eu hunain ychydig wyliau. Ac o ran a wn i, y mae arnynt hwy gymaint o'i angen a neb; oherwydd gwaith caled yw lladd amser am flwyddyn gyfan. Sylwais fod y rhan fwyaf o ddynion yn trefnu iddynt eu hunain ychydig wyliau bob blwyddyn. Y mae

EITHRIADAU

yn hyn fel yn mhob peth. Am yr ugain mlynedd diweddaf un o'r eithriadau fûm i yn y mater hwn. Am hyn nid oes genyf neb i fwrw'r bai arno ond mi fy hun. Nis gwn ai yn mysg y dosbarth defnyddiol, ynte yn mysg y dosbarth nad ydynt o un defnyddioldeb neillduol, y dylid fy nghyfrif. Tybiaf weithiau fy mod yn hofran yn rhywle rhwng y ddau—fel cleddyf Mohamed rhwng nefoedd ac uffern. Gan nad beth am hyn, daeth i'm meddwl y llynedd y gwnelai ychydig ddiwrnodiau o seibiant—o newid golygfeydd ac awyrgylch gyffredin fy mywyd—les i minau hefyd. Felly ymsymudais o ddosbarth yr eithriadau yn y mater o wyliau i ddosbarth y rheol gyffredin. Y llynedd cyfeiriais fy nghamrau tua glân y môr; a gwnaethum yr un peth eleni—o leiaf, os nad fy nghamrau i, eto camrau yr anifail ffyddlon a'm cludai. Ni enwaf y lle dewisedig — nid oes angen datguddio'r oll o'm cyfrinion. Digon yw dyweyd ei fod rhywle tu fewn i derfyngylch

Glan Môr Ceredigion.

Lle gwledig, tawel, gydag uchelgais i fod yn dref ffasiynol, yn sefyll ar safle ramantus i'r eithaf; o heolydd serth, a thai wedi eu cyfleu

dipyn yn anrhefnus, yr hyn a rydd i'r pentref (neu i'r dref) fwy o amrywiaeth na fedd trefydd o gyffelyb faintioli sydd a'u heolydd a'u tai wedi eu trefnu yn fwy rheolaidd ; lle â phobl serchog, siriol, yn byw ynddo—fodd bynag, dyna sut bobl oedd y rhai y daethum i i gyffyrddiad â hwynt. Elwn allan o'm cartref amserol yn y boreu gyda gwên siriol y bobl yr arhoswn gyda hwynt yn fy nilyn ; elwn yn ol am fy mhrydiau bwyd yn ngoleu heulwenaidd yr un yspryd croesawgar ; a phan ddaeth yr adeg i ymadael, teimlwn fy mod dipyn yn gyfoethocach yn herwydd yr amser dedwydd a dreuliais gyda'r teulu hwn. Yn mhellach, pobl serchog, siriol, oedd yr oll o'r rhai y cefais i y pleser o ddal ymgom â hwynt. Dyweded dynion a fynont am wendidau'r natur ddynol, y mae

RHYWBETH YN ARDDERCHOG

ynddi wedi'r cwbl—perthyn iddi, yn y rhan fwyaf o achosion, elfenau a berant i'r hwn a sylwa arnynt i feddwl yn dda am dani. Yn yr ymwelwyr, yn naturiol, y teimlwn fwyaf o ddyddordeb ; oherwydd treuliwn bron yr oll o'm hamser yn eu cwmni. Barnwn fod yno o leiaf fil o honynt yr wythnos y bûm i yno—pobl o bob oedran o'r plentyn i fyny. A gwaith dyddorol iawn oedd sylwi ar yr amrywiaeth mewn gwynebau, mewn gwisgoedd, mewn dulliau o dreulio amser, ac yn y blaen. Cefais lawer o bleser o sylwi ar y plant. Yr oedd gan bob un o honynt ei bâl a'i ystwc. Mor galed y gweithient ! Penydwasanaeth oedd glàn y môr iddynt hwy allwn feddwl. Ond gweithient mor ewyllysgar. Er fod rhai o honynt yn gweithio mor galed fel y treiglai chwys dros eu bochau cochion, prydferth, nid ymddangosent hwy yn ymwybodol o hyny. Un diwrnod arhosais i sylwi yn arbenig ar un plentyn—merch fechan. Yr oedd yn ddiwyd yn symud y graian i'w osod i fyny ar ffurf clawdd—i gadw'r môr rhag dod yn mhellach allwn feddwl. Ar ol hir a chaled lafurio, llwyddodd i gludo at eu gilydd wmbredd o'r graian mân. Yn awr ac eilwaith arhosai am eiliad fel pe i edmygu ei gwaith, a chelai fwynhad anghyffredin wrth wneud hyny. Yna, ail ddechreuai gyda'r un yni ag o'r blaen. Yr oedd wedi ei llyncu i fyny mor llwyr gan ddyddordeb yn ei gwaith, fel yr oedd yn amlwg ei bod wedi anghofio fod y fath beth a môr mewn bodolaeth. Ond os oedd hi yn ddiwyd, yr oedd y môr yn ddiwyd hefyd, ac yn nesu bob eiliad at y clawdd bach oedd wedi ei amcanu i'w rwystro i fyned yn mhellach. Nesu, nesu, nesu wnai ef ; ac yn y man dyna dòn yn cyrhaedd hyd at y clawdd, ac yn dechreu gweithio dan ei seiliau. Nid hir y bu cyn iddo gael ei wneud yn gydwastad â'r llawr. Ac O ! y fath olwg drist daenodd dros wyneb yr un fechan ! Ni fedrwn lai na chydymdeimlo â hi. Ond mawr obeithiaf na ddaw i'w chwrdd un achos gwaeth na hwn i ofidio o'i herwydd. Gallwn adrodd llu o bethau eraill y sylwais arnynt mewn cysylltiad â phlant—yr oll o honynt yn ddyddorol. Y mae pob peth

YM MYWYD Y PLENTYN

yn ddyddorol. Ac wrth dreulio ambell orig fel hyn yn eu cwmni, fe'm cludir yn ol ar aden dychymyg i ddyddiau fy mhlentyndod i fy hun, a chaf bleser mewn dwyn i gof rai o'm gweithredoedd direidus ac oriau difyr a dedwydd y tymhor hwnw. Ond rhaid gadael y plant gyda hyn. O'r plentyn i'r dyn ieuanc nid oes ond megis cam ; felly hefyd o'r dyn ieuanc i'r canol oed ; ac o'r canol oed hyd at ddyddiau henaint. Gwelid llu o bob un o'r dosbeirth hyn ar làn y môr yr wythnos dan sylw ; a sylwais gryn dipyn ar ddulliau pob un o honynt o fwynhau eu gwyliau. Yr oedd yno fechgyn a merched ieuainc—yr oll (yn enwedig y merched) yn eu dillad goreu. Hoff ydwyf o weled pobl ieuainc wedi ymwisgo yn drwsiadus—yn neillduol felly y rhyw deg, oddieithr pan y gwelaf yn y gwisgoedd prydferth arwyddion o greulondeb. Mewn perthynas i'r dosbarth hwn o'r ymwelwyr (a phob dosbarth hefyd o ran hyny) gallaf ddwyn y dystiolaeth hon—na ddarfu i mi erioed weled nifer mor lluosog gyda'u gilydd o ymddygiad mor ardderchog. Nid oeddent wedi dod yno oherwydd gwaelder iechyd—y rhan fwyaf o honynt. Yr oeddent, yn hytrach, wedi dod yno i fwynhau eu hunain. A phwy ddywed na haeddent hyn ar ol gwaith caled blwyddyn gyfan. Treuliai'r canol oed a'r hen eu hamser yn benaf mewn

YMGOMIAU

ar wahanol faterion. Bum i fy hun yn gwrandaw ar rai o honynt, ac yn cymeryd rhan yn eraill. Cefais lawer o adeiladaeth oddiwrthynt. Delai crefydd, enwadau, sectyddiaeth, pregethwyr ac offeiriaid, gwleidyddiaeth, gwleidyddwyr,—delai pob peth dan sylw. Gwelais lawer yn treulio eu hamser mewn darllen. Pa bryd bynag yr awn heibio iddynt, yr oedd llyfr yn eu llaw, ac ymddangosent fel pe wedi ymgolli yn llwyr yn yr hyn a ddarllenent. Wrth sylwi arnynt, delai gofyniad o'r fath hyn i'm meddwl—pa fodd y medrent ddarllen mewn amgylchoedd o'r fath? Hoff ydwyf fy hun o ddarllen. Ond pan ar làn y môr y mae darllen yn amhosibl. Heb son am ddim arall, y mae'r môr ei hun yn ddigon o rwystr. Y mae mor ddyddorol, mor swynol, fel, pan yn ei ymyl, nad hawdd cael y meddwl i gyflwr addas i ddarllen. Ond mae'r hyn sydd amhosibl i un yn bosibl i arall ; a diau fod y rhai a ymroddent i ddarllen fel y cymhorth goreu i dreulio amser ar làn y môr wedi derbyn budd oddiwrth hyny. Beth am yr

YMGOMIAU?

Palla gofod i ddyweyd llawer ar hyn. Bum mewn ymgom ddyddorol âg amryw ar faterion crefyddol — duwinyddol, yn hytrach. Yn nghwrs yr ymgomiau hyn daethum i gyffyrddiad (nid am y tro cyntaf) âg enghreifftiau yn yr un person o'r hyn a alwai y diweddar Mr. James (o barchus goffadwriaeth) yn dduwinyddiaeth fewnol ac

allanol. Nid yr un yw'r ddwy bob amser. "Y mae llawer o'm perthynasau i yn Undodiaid," meddai un wrthyf; ac yna enwai un ar ol y llall nes oeddent restr hirfaith—dynion a benywod fuont yn dwyn pwys a gwres y dydd yn un neu arall o'n cynulleidfaoedd. "Ond beth ydych chwi eich hun?" gofynwn iddo. Ni wnai ond gwenu ac ateb, "Wel, yr wyf yn darllen YR YMOFYNYDD yn gyson." Tra sicr ydyw fod iawnffyddiaeth yr hwn a fedr ddarllen YR YMOFYNYDD yn gyson mewn cyflwr peryglus ac anobeithiol iawn. Terfynaf y llith hon fel hyn: pan y blinwn fod yn nghanol y dorf, ymneillduwn i ryw fan unig, heb fod neb ond yr un sydd yn cyd-ddwyn iau bywyd â mi yn fy nghwmni, gyda'r tònau yn ymyl fy nhraed, a'r creigiau yn hongian uwch fy mhen. Pan mewn amgylchoedd o'r fath hyn, mynych syrthiwn i syn-fyfyrdod, bron i fath o freuddwyd effro, o'r hwn na ddeffrown hyd nes y'm gorfodid gan y tònau i gilio yn ol. Wrth sylwi ar fy amgylchoedd rhamantus, delai gofyniad un o'r ysgrifenwyr cysegredig i'm meddwl—"Pwy a greodd y rhai hyn?" Mor ychydig ŵyr dyn am y dirgelwch a'i hamgylcha. Er hyn, bob tro y delai'r gofyniad uchod i'm meddwl, ni phetruswn roi'r ateb hwn iddo—"Duw." Ond er rhoi o honof yr ateb hwn i'r gofyniad uchod —gofyniad sydd wedi blino meddyliau dynion chwilfrydgar yr holl genedlaethau er y daeth dyn yn enaid byw—ni fedrwn ddyweyd fy mod yn gwybod fawr am dano. Ond dŵg y meddwl fod yna

RYWUN YN GYFRIFOL

am y cwbl i mi lawer o gysur. Ymbalfalu yr ydym i gyd yn nghanol y dirgelwch yn yr hwn y mae pob peth fel pe wedi ei lwyr amdoi, gan geisio yn ddyfal am ambell i belydryn o oleuni arno, a thybio ein bod yn ei gael yn awr ac yn y man. Daw'r pelydrau hyn o wahanol gyfeiriadau. Ond o bob ffynhonell o'r rhai y deuaut, nid oes yr un o honynt, i mi o leiaf, mor gyfoethog a'r

UN HWN—FOD DUW

yn a thrwy a goruwch oll. A gobeithiaf y caf y fraint o deithio'r gweddill o'm gyrfa ddaearol yn ngoleu cysurlawn y llusern hon.

MYFYRIWR.

Y MORGRUGYN.

GOFALUS hadog filyn—a ŵyr werth
Awr hâf yw'r Morgrugyn;
Daw a'i faeth i'w glyd fwthyn,
A throsa ddoeth wers i ddyn.—GLAN ELAI.

Y PARCH. H. M. HUGHES A'R UNDODIAID.

TRWY garedigrwydd rhyw gyfaill yr wyf wedi cael golwg ar rifyn Chwefror o'r "Dysgedydd," o bosibl oblegid erthygl y Parch. H. M. Hughes, B.A., Caerdydd. Fe allai y caniatewch i mi, cyn dechreu fy sylwadau, longyfarch Mr. Hughes ar ei adferiad o'i bwl clefyd diweddar. Yr wyf wedi darllen ei erthygl, ac ystyriaf hi yn alluog fel y gellid dysgwyl oddiwrtho ef, ac yn bwrpasol ar y cyfan i'r amcan oedd ganddo mewn golwg. Gwyddwn rywbeth yn flaenorol am Mr. Hughes fel boneddwr a Christion yn sefyll yn uchel mewn parch yn ei eglwys a chyda'i enwad; ond cefais fy siomi yn fawr wrth ddarllen yr

YMOSODIAD

angharedig a di-alw am dano, fel yr ymddengys i mi, a wneir ganddo ar yr enwad Undodaidd. Yr wyf yn synu na fedrai drin ei bwnc hwn heb lusgo i fewn hen bwnc y capelau a Choleg Caerfyrddin. Fel na byddo camddealldwriaeth fe allai y caniatewch i mi ddifynu ei eiriau:—

"Nid oes dim yn fwy sicr nag fod brwydr Undodiaeth i gael—yn wir, yn cael—ei hymladd eto yn ein gwlad. Nid yn hollol yr un fath, nac ar yr un maes, na chyda'r un arfau, ag yr ymladdwyd hi gan ein tadau, pan gymerwyd rhai o'n heglwysi yn Sir Aberteifi a Sir Forganwg, a'n Coleg yn nhref Caerfyrddin oddi arnom; eithr yr un yw y frwydr, ac mae'r fuddugoliaeth i olygu dygn fywyd neu farwolaeth i grefydd efengylaidd ein gwlad." * * "Ysgrifenodd rhyw weinidog heb ofal eglwysig, a berthynai unwaith i'r Annibynwyr yn Bradford –ond sydd yn awr gyda'r Undodiaid*—brodor o Fôn, a fu unwaith yn fyfyriwr yn Athrofa y Methodistiaid yn y Bala—i'r *Hibbert Journal* yn lonawr diweddaf (?) i awgrymu a cheisio profi na fu'r fath berson â *Christ* yn bodoli yn hanesyddol erioed," &c.—Tud. 60.

I ymdrin â phwnc "Iesu neu'r Crist" nid oedd dim yn galw am yr ymosodiad, ac nid wyf yn gweled sut yn bosibl y dysgwylia'r awdwr i unrhyw ddaioni ddeilliaw trwy hyny nac i'w enwad ei hunan na neb arall. Pe wedi pwyso ei eiriau yn nghlorianau chware teg a chariad brawdol, ni chredaf y gwnai byth ensynio fod yr Undodiaid wedi *lladrata*, &c., oblegid dyna ddeallir, er mai "pan *gymerwyd*" yw'r gair ddefnyddir. Y mae tua 150 mlynedd wedi myned heibio oddi ar yr ymryson a'r ymraniad, a gellid dysgwyl fod chwerwder yspryd y 18fed ganrif wedi lliniaru ychydig yn mhlith Cristnogion yr 20fed, yn enwedig wrth ymdrin âg egwyddorion. Nid wyf yn barod i

* Nid wyf yn credu fod un sail dros ddywedyd fod y Parch. R. Roberts yn awr gyda'r Undodiaid.

ddweyd na fu bai ar y ddau tu, ond ni chredaf am foment fod yna'r fath beth a lladrata gwirfoddol wedi bod ar y naill du na'r llall.

A gaf fi egluro y modd yr edrych pethau i mi? Yr awgrymiad cyffredin yw mai Calfiniaid ddylai fod yn berchen ar y *property* heddyw. Fel hyn y byddaf finau am ddywedyd: Adeiladwyd y capel gan y personau, ac at wasanaeth y personau, a wnaent i fyny'r eglwys, ac ymddengys i mi mai'r eglwys yn naturiol ddylai fod yn berchen arno—y *personau* a wnant i fyny *gorff* yr eglwys, ac nid yr *opiniynau* a goleddid ar ryw adeg neillduol yn hanes yr eglwys. Gall yr unigolion mae'n wir farw, ond erys yr eglwys drwy'r cenedlaethau. Ceisiwn egluro fel hyn: Dyna John Jones, yr oedd yn byw ar fferm Gelliwyon ac yn berchen arni. Mae John Jones yn marw yn Galfiniad. Dafydd ei fab, Arminiad yw; ond am Morgan yr ŵyr, mae yn Undodwr. Yn awr, beth am berchenogaeth y fferm? A ddylai gael ei chylymu wrth Galfiniaeth a'i throsglwyddo i berchenogaeth ryw gymydog sy'n byw gerllaw, yn unig am ei fod yn dygwydd bod yn Galfiniad? Credaf na hònai neb ddim mor afresymol; eithr addefid yn hytrach y dylai'r fferm ddisgyn o dad i fab, &c. Yn gyffelyb yr Eglwys—ac yn enwedig lle mae'r brydles yn rhydd—lle nad yw y llaw farw yn llywodraethu; yr hyn yw sefyllfa'r holl hen eglwysi sydd yn bresenol yn meddiant yr Undodiaid. Byddai'n ddyddorol gwybod a fyddai Mr. Hughes heddyw yn barod i dyngu llw o ffyddlondeb i Bump Pwnc John Calfin. Os na, i bwy y carai weled y capelau yn myned?

Mi garwn ychwanegu gair yn mherthynas i Goleg Caerfyrddin; ond rhag trespasu'n ormodol ar eich gofod ni wnaf ond dywedyd, nad wyf yn gallu dirnad sut y breuddwydiodd Mr. Hughes fod Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin wedi bod erioed yn eiddo'r Independiaid. Mae'n wir fod y Bwrdd Annibynol yn Llundain un amser yn cyfranu at y Coleg, ond darfu iddynt dori eu cysylltiad âg ef yn 1757, pan oedd y Parch Samuel Thomas yn athraw, a sefydlu Coleg Annibynol newydd iddynt eu hunain yn Abergafeni; ac eto ni ddylid anghofio fod naw o bob deg o'r myfyrwyr drwy'r blynyddoedd yn Annibynwyr, ac yn derbyn eu haddysg yn y Coleg yn rhad ac am ddim.

Gorphenaf 20, 1910. R. J. J.

Y PARCH. R. J. CAMPBELL AR "UFFERN."

YMAE'R Parch. Mr. Campbell mewn pregeth yn ddiweddar wedi tynu darlun tarawiadol o fynediad enaid heb ei ddadblygu i'r byd nesaf, ac wedi awgrymu yr ymddengys gogoniant y byd hwnw i'r rhai sydd yn amharod mewn ystyr ysprydol megys tân uffern. Ebe fe:—

"Y rhai y mae eu gweledigaeth ysprydol wedi ei newynu, y rhai sydd wedi caru'r tywyllwch yn fwy na'r goleuni, oblegid fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg, y rhai hyny a gânt y goleuni yn *uffern* ar y cyntaf; a byddant yn hir cyn y gallant weled wrth y goleuni. Bydd yn deifio ac yn llosgi, nad pa gymaint y bydd trugaredd Duw yn ei dymheru. Bydd pob pelydr newydd o wirionedd dwyfol megys gloes newydd, hyd nes bydd yr enaid yn ddigon cryf i'w oddef ac i fyw megys y bwriadwyd ef i fyw. Ond bydd aml i ddyn gostyngedig a duwiol, sydd wedi byw yn nhywyllwch y byd hwn, mor ffyddlon ag y gallai, bydd i hwn gael ei hunan yn ddisymwth mewn byd prydferth ar gyffyrddiad marwolaeth. Fe syrth y cèn oddiar ei lygaid, ond ni theimla un poen, dim ond rhyfeddod mawr a llawenydd fod nefoedd gymaint yn fwy gogoneddus nag a feddyliodd. Y dadguddiad a fyddai'n boen i un fydd yn llawenydd i un arall."

Ar ddiwedd ei bregeth dywedodd rai pethau pur noeth ar y pwnc, "Gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi." Ni anghofir dim, ac ni fydd i ddim fethu ffeindio ei le yn yr eangfyd mawr, ac hyd y nod y pethau cuddiedig a ddadguddir i ni ac i eraill:—

"Fe allai fod rhai o honoch yn ddall hollol i'r hyn ydych mewn gwirionedd; yr ydych yn gynllunwyr hunangar, yn galed o galon, yn drachwantus ac yn greulawn, bron heb ei wybod. Pa faint o dosturi a deimlwch dros y crwydryn a'r tlawd, yr eiddil a'r cyndyn, a ddigwydd groesi eich llwybr. Sut yr ymddygasoch at y rhai oedd mewn ystyr yn eich gallu pan oedd eu buddianau (*interests*) yn groes i'r eiddoch chwi? Beth ydyw barn eich plant am danoch? A wnaiff enaid mewn trallod droi atoch yn rhwydd am help? Gallwch fod yn hollol foddlawn arnoch eich hunan, a meddwl am danoch eich hunan fel patrwm o uniondeb a gonestrwydd. Felly y gellwch fod, ond y mae yna rywbeth nad ydych yn ei ddeall hyd yma, a hyny yw ystyr cariad achubol."

Yna daw'r geiriau nerthol hyn:—

"Yn awr gwrandewch arnaf fi, bawb o honoch. Pa beth bynag ydyw'r hyn sy'n cadw eich enaid i lawr, yn ei gylymu wrth y ddaear, ac yn ei lunio i rywbeth gwahanol i ddelw Duw, torwch ef i ffwrdd yn ddidosturi. Allan â'r celwydd. Peidiwch chware'r llwfryn fynyd yn hwy. Na chaed swynion byd barhau'n feistr arnoch un awr. Byddwch yn uniawn ac yn onest nad beth fo'r gost. Gall ofyn gwroldeb a phenderfyniad diysgog i ymdori oddi wrth ddrwg y gorphenol, eithr ymwrthodwch ag ef, ac ymwrthodwch ag ef yn awr, y fynyd hon. Po hwyaf yr oedwch, anhawddach o hyd y daw'r tasg, hyd nes y daw'r dydd y gwnaiff tânau uffern y gwaith drosoch. A gadewch i mi ddywedyd hyn wrthych: Hyd nes y byddoch wedi ei wneud, hyd nes y byddoch gyda phwyll a difrifoldeb wedi troi eich cefn ar bechod, ni all Crist ei hunan ddim eich achub oddiwrth ei ddylanwad. Ond pan fyddoch wedi ei wneuthur, pan na fydd dim mwy yn eich calon y byddwch yn parhau i'w gofleidio a'i feithrin yn groes i ewyllys Duw, fe ddaw'r Crist, y gwir ddyn, y dyn dwyfol, ac fe gymer feddiant, i deyrnasu mewn cariad byth mwy."

ANIBYNIAETH BERSONOL MEWN UNDEB CYMDEITHASOL.

Aelodau lawer : Un Corff.—*1 Cor. 12 : 20.*

[*Pregeth a draddodwyd yn Mrondeifi, Llanbedr, gan y Parch. C. J. Street, M.A., Ll.B., yn Nghyfarfod Blynyddol Undodiaid Deheudir Cymru, nos Fercher, Mehefin 21, 1910*].

Dyma oedd delfryd Paul o gymdeithas Gristionogol, ac *erys* yn ddelfryd uchel, ac i raddau pell heb ei sylweddoli hyd heddyw. Yn ol hyn, byddai Eglwys yn gynwysedig o bawb Cristionogion, a phob un yn cyflawni ei ran ei hunan, yn ei ffordd ei hunan, a'r oll yn cydweithredu i amcan ac i wasanaeth gyffredin. Mae unrhyw Eglwys a amcana at lai na hyn yn anheilwng o'r enw ac yn sefyll ar ffordd rhywbeth gwell.

Rhaid i gymdeithas Gristionogol—hyny yw cymdeithas seiliedig ar grefydd Iesu Grist fod yn gymdeithas o ddynion rhydd. Nid yw hyny yn golygu un aberth o bersonoliaeth, nac un gwanhad o'r hawl bersonol. I'r gwrthwyneb, ceisia gan bob aelod i wneud ei ran, gan gyfranu a allo at y lles cyffredin, a gwneud defnydd o bob cyneddf, nid yn unig i amcan hunan, ond er lles a hawddfyd cyffredin. Dywed wrth bawb, yn wryw a benyw :—Beth allwch *chwi* wneuthur a bod? Beth yw eich doniau neillduol *chwi?* Byddwch fyw eich gwir fywyd eich hunan ; gwnewch eich gwaith gore eich hunan ; a byddwch sicr wrth wneud hyny eich bod yn cyfranu at les yr oll. Mae ar y byd eich angen ; byddai'n dlotach heb eich cyfran fechan chwi at ei gyfoeth a'i hawddfyd. Peidiwch llacau eich ymdrech dros unrhyw achos am eich bod yn ei ystyried yn ddibwys neu am nad ydych yn gweled fawr tebygolrwydd y cewch fedi i chwi eich hunan holl gynauaf yr hyn a hauwch. Eithr meddyliwch ar delerau eangach a sylwch ar berthynas eich bywyd a'r bywyd mwy o'r hwn y ffurfiwch ran, er mai rhan fechan yw. Y Bywyd Dwyfol nid yw wedi ei ganoli mewn un personoliaeth ddynol, ond y mae yn wasgaredig drwy yr oll, yn cael ei amlygu yn mhob cyneddf ac yn mhob gwaith a gyflawnir. Sylweddolwch na allwch chwi fodoli o gwbl heb wasanaeth anhunangar eraill, ac na fyddai cyflawniad eich gwaith eich hunan yn bosibl heb hyny. Rhoddwch yn ol gan hyny i'r storfa gyffredin—the common stock—o leiaf gymaint ag yr ydych wedi gymeryd allan o hono. Bydded cywilydd arnoch i dderbyn yn barhaus heb roddi dim yn ol. Ymgodwch i sylweddoliad o urddas eich natur, a chyflawnwch eich dyledswydd megys mab neu ferch i

Dduw.

Byddwch weithiwr, fel y mae Efe bob amser, ac i amcanion uwch na'ch mantais personol eich hunan. Syrthiwch i fewn i gydymffurfiad â deddfau sylfaenol y Bydysawd. Dygwch eich ewyllys i gydgordiad ag Ewyllys Duw, a phan yn ceisio lles yr oll ac yn cyfranu yn ol eich gallu at les y byd yn gyffredinol, byddwch yn gwneuthur y gore drosoch eich hunan, i'r hyn mewn gwirionedd y danfonwyd chwi i fywyd y byd.

Meddyliwch beth fyddai cyfundeb Cristnogol pe gosodid y delfryd hwn mewn gweithrediad bob dydd! Amddiffynai, gyda'r gofal mwyaf,

anibyniaeth bersonol mewn undeb gwir gymdeithasol. Ni cheisiai neb gymeryd mantais ar ei gymydog, ond byddai'r naill yn anog y llall i roddi ei oreu er mwyn y lles cyffredinol. Byddai'r holl nodweddion sy'n gosod urddas ar fywyd, pob cymhwysder neillduol sydd yn gwneuthur un dyn yn wahanol i ddyn arall, pob manteision neillduol y bydd unrhyw ddyn yn cychwyn â hwy, neu a enillo ar ei daith,—byddai'r rhai hyn oll yn cael eu defnyddio, a rhoddid pob anogaeth i'w defnyddio i'r man pellaf, ond nid i amcanion hunangar: gwneud pob peth er y lles cyffredin. Golygai hyny nefoedd ar y ddaear, a dyfodiad y deyrnas bregethodd Iesu, ac at yr hon yr edrychai yn mlaen gyda ffydd ddiffael. Pan ddaw Cristnogaeth yn ffaith orphenedig, yna bydd y deyrnas wedi dod.

Ond och! mor bell oddi wrth hyn oedd ac yw Cristnogaeth. Yr Eglwys, yr hon ni sylfaenwyd gan Iesu, yr hon ni ddewisai ei sylfaenu, ond a sylfaenwyd gan ei ganlynwyr, darfu i hon yn gynar wneud honiadau am undeb, honiad iawn a phriodol o bosibl pe'i deallid yn iawn ac yn briodol. Ond syrthiodd yr Eglwys yn fuan i'r amryfusedd o geisio'r peth iawn mewn ffordd nad oedd yn iawn; o amcanu peth urddasol a defnyddio moddion anheilwng. Gosododd o'u blaen y delfryd Catholig, na'r hwn nis gallai fod ardderchocach, ond gwnaeth gam-esponiad o yspryd y Meistr pan yn ceisio gosod y delfryd mewn ymarferiad,—i'r fath bwrpas dinystriol yr ydys wedi gosod yr enw Catholig fel y mae wedi ei lychwinio am byth, a'i waghau o brydferthwch ei ystyr gwreiddiol. Daeth "*Gorfodwch* * hwy i ddyfod i mewn" yn arwyddair y rhai oedd yn trefnu yn yr Eglwys, a gwnaed hyn nad beth fyddai'r canlyniad, ar draul anibyniaeth bersonol a chydwybod y dyn a'i ryddid—pris enbyd i dalu am undeb—undeb yn wir o'r fath ag oedd, ond undeb gorfodol ac annaturiol; undeb wedi ei enill ar draul caritor personol; unffurfiaeth allanol, yn hytrach nag undeb teimlad ac amcan cyffredin.

Daeth yr Eglwys felly i fod yn arwydd ac yn gorfforiad o ormes. Gwasgodd ei hewyllys drwy rwymau haiarnaidd credo a thrwy weinyddiad caeth dysgyblaeth eglwysyddol. Distawodd bob gwrthwynebiad a beirniadaeth drwy fygythion a dirwyon trwm. Alltudiodd neu carcharodd neu llosgodd y cyfryw hyny a ystyriai yn wrthnysig. Llethodd ei ddynoliaeth allan o lawer i fynwes onest. Gosododd wobr ar lygadwasanaeth a rhagrith; ac yn naturiol gosododd farnedigaeth arni ei hunan. Condemniodd egwyddorion Cristnogaeth yr Eglwys Gristnogol.

Daeth y gwrthdystiad anocheladwy. Gwrthwynebwyd undeb felly, a ddygwyd oddiamgylch, nid trwy urddasoli a dadblygu y person unigol, ond trwy ei ddarostwng. Teimlwyd fod unffurfiaeth ag oedd wedi ei sicrhau yn y fath fodd yn waeth na bod yn ddiffrwyth, ei fod mewn gair yn niweidiol. Wedi ei sicrhau ar draul gonestrwydd personol, fe dynodd y galon allan o fywyd ac achosodd alltudiaeth y gwirionedd.

Fel hyn fe gondemniodd y Diwygiad Protestanaidd yr undeb annaturiol, a safodd dros undeb ellid deimlo ei fod yn wirfoddol. Gosododd bwys ar yr unigolyn, ac adfeddianodd iddo yr hyn oedd wedi ei gymeryd oddiarno. Hawliodd iddo ryddid personol, rhyddid cydwybod, barn bersonol, anibyniaeth i'r enaid oddiwrth gaethiwed eglwysyddiaeth. Cymerwyd y pwysfawriad (*emphasis*) oddiwrth yr Eglwys a dodwyd ef ar person unigol. Amddiffynwyd ei hawliau a'i ragorfreintiau gyda phob diwydrwydd. Yn lle ordinhadau a gorchymynion Eglwysig daeth y syniad am gymundeb union yr enaid â Duw, a dadguddiadau union Duw

---

* "Compel" them to come in—yw'r Saesneg; "cymhell" yw'r Gymraeg; ac yn y Testament Newydd Diwygiedig "Constrain."—Luc 14: 23.

i'r enaid i gael sylw. Symudwyd y pwys-fàn—y *centre of gravity*—newidiwyd yr arolwg yn hollol. Rhoddwyd pwys ychwanegol ar y bywyd personol a'r meddwl personol: honid mai fel hyny yn unig y gellid urddasoli a nerthu bywyd yn gyffredin.

Mae'n wir nad oedd Protestaniaeth mor drwyadl nac mor gyson ag y dylai fod. Wedi ymgynefino cyhyd â thrais awdurdod yr Eglwys, nid oedd yn annaturiol, ar ol y gwrthdystiad grymus cyntaf, fod rhai o'r diwygwyr yn llithro'n ol i ddiddosfa y peth a ofnent, neu o leiaf i'r cysgod o hono. Yr oedd yn ormod gwaith i lamu i berffaith ryddid ar unwaith, ar ol cenedlaethau o gaethiwed. Fe osodwyd atalfa (*brake*) ar y mudiad ardderchog bron cynted ag y cychwynodd, a gadawyd ei gyflawn ogoniant a'r arwyddocâd berthynai iddo i ychydig wroniaid mwy dewr yr oes hono, ac i genedlaethau doethach y dyfodol.

Ond o'r dydd cyntaf hwnw hyd yn awr, er cymaint y methodd Protestaniaeth yn ei hymgais i fod yn drwyadl, y mae wedi bod yn symudiad unigoliaethol yn hytrach na chymdeithasol. Y mae ei gwrthwynebiad i undeb gorfodol wedi ei gario yn rhy bell i'r cyfeiriad arall gyda'r canlyniad fod yn agos cymaint wedi ei golli, ag yr oedd yr Eglwys Gatholig wedi daflu allan drwy ei gormes. Mor selog oedd yr unigolyn dros y rhyddid a adferwyd iddo ar ol mawr ymdrech, fel y cofleidiodd ef yn dyn yn ei freichiau, gan gadw pawb eraill yn mhell oddiwrtho. "Dyma fy nghrefydd i," meddai mewn effaith, "fy nghyfrinach i gyda Duw. Y mae genych chwi, neu gall fod genych chwi un debyg yr hon sydd yn eiddo i chwi eich hunan. Meithrinwch yr eiddoch, fel yr wyf fi yn meithrin yr eiddof fi, a pheidiwch ceisio ymyraeth â mi, na gofyn i mi ddatguddio fy nghyfrinach i chwi."

Ac fel hyn y mae Protestaniaeth, gyda rhai eithriadau anrhydeddus, wedi meithrin bywyd ysprydol rhy fewnol, rhy hunangarol. Mae'n cadw i *un* y peth ddylai fod yn feddith i *bawb*. Mae wedi cadw annibyniaeth ardderchog mewn unigrwydd; wedi defnyddio ei rhyddid yn acblysur i'r cnawd, yn lle gwasanaethu'r naill y llall trwy gariad. Y mae Protestaniaeth wedi dioddef oddiwrth ei rhinweddau; pwysfawrodd ei hegwyddorion mwyaf ardderchog i'r fath raddau nes cuddio grasusau mwyaf bywyd, y cydymdeimladau dyfnaf, y cydweithrediadau cynesaf, y rhai y cynefinodd yr hen system ni â hwy.

Gellir desgrifio egwyddorion y Protestant a'r Catholig megys elfenau, gweithredol a goddefol, gwrywaidd a menywaidd, a dim ond drwy gyfuniad o'r ddau y genir yr yspryd gore. Cynrychiolant ddau duedd, pob un o honynt yn ardderchog, dau nodwedd (type), pob un yn ddymunol, pan gedwir hwy yn hollol yn eu cylch eu hunain, a phan y rhwystrir hwy i fyned i eithafoedd. Gellir cymeryd eu cyweirnod (keynote) fel hyn,—cyweirnod Catholiciaeth yw Cristnogaeth fel gallu yn rhwymo; a chyweirnod Protestaniaeth yw Cristnogaeth fel symbyliad personol,—y ddau yn angenrheidiol i Gristnogaeth gyflawn, y Gristnogaeth sydd yn gofyn y gore oddiwrth yr unigolyn, ac yn ei alw i gymdeithas a'i frodyr yn mhob peth sydd er daioni dynoliaeth. Nid yw undeb a geir trwy orfodaeth ddim yn un lles i ddynion. Nid yw anibyniaeth eithafol chwaith ddim yndda i'r dyn unigol nac i gymdeithas, gan ei fod yn pwysfawru'r hunan yn ormodol ac yn anwybyddu'r lles cyffredin.

Y sawl a sylweddolant gyflawn ystyr crefydd, ei gallu i ysprydoli, a'i nerth i rwymo; fe wna'r rhai hyny droi o'r neilldu ddiffygion y ddau system, a gafaelant yn y rhinweddau berthynant i bob un. Caniateir i bob un gyflawn ryddid meddwl a bywyd, ond disgwylir oddiwrtho ei fod yn ei ddefnyddio er lles pawb, ac nid er lles iddo ei hun yn unig. Cymdeithas o eneidiau rhyddion yw'r unig undeb gwerth ei gael, pa un ai mewn Eglwys Gristionogol, ynte mewn cyfundeb Cristionogol. Fel

hyny yn unig y dichon undeb ddyfod yn Gristionogol, canys dyna oedd addysg Iesu, ac oddiwrth ei fywyd a'i addysg ef yr ydym yn benaf yn cael ein dealldwriaeth o'n rhwymedigaethau Cristnogol.

Ac yn gyffelyb fel y bydd yn rhaid i'r Catholig a'r Protestant anwybyddu eu terfynau a myned i fewn i ddealldwriaeth eangach a pherthynas gyfiawnach â'u gilydd, felly hefyd bydd yn rhaid i'r Unigolydd (Individualist) a'r Cymdeithasydd suddo eu gwahaniaethau, a chan gyflenwi y naill ddiffyg y llall, weithio er lles pawb yn gyffredin. Y mae angen pob owns o annibyniaeth egniol, er sicrhau y gore posibl oddiwrth bob un; ond wedi cael y gore, sylweddoler na ddylid ei fwynhau mewn modd hunangar, ond defnyddier ef er lles y naill y llall. Po addasaf y gwnelo dyn ei hunan, mwyaf i gyd fydd yr angen am ei help a'i gydweithrediad fel y byddo i bawb gael lles, ac na byddo i neb elw ar draul brawd gwanach. Mae'r dringo i fywyd cyfoethocach a lluosocach yn rhagorol a dymunol iawn, ond nid ar na thros gyrff y sawl sydd wedi syrthio ar ochr y ffordd. Ni ddarfu i'r Samariad orphen y lledrad ar y teithiwr archolledig a diamgeledd, ond i'r gwrthwyneb, collodd beth amser, a gwariodd beth oriau, o'r hwn nid oedd ganddo ormod, tuag at wneud y dyn yn addas drachefn i wynebu ymdrech bywyd, ac nid yw ddichonadwy i un dyn, gyda'r gradd lleiaf o egwyddor Gristnogol yn ei feddiant, foddloni codi ar draul dinystr ei gymydog: efe a gyfyd yn fwy sicr mewn caritor (a dyna yn unig sydd o werth) drwy aberthu ychydig o'i ddymuniad a'i amcan ei hunan er mwyn gwneud cymwynas i frawd llai ffodus sydd wedi ymdrechu yn ofer ac wedi colli calon a gobaith.

Sylweddolwch fod genych dalent, feallai fwy nag un, yn eiddo neillduol i chwi eich hunan; ei fod yn eiddo i chwi *i'w ddefnyddio*, ac i'r fantais ore; eich bod chwi eich hunan yn perthyn i ddynoliaeth, ac nid yn hollol yn eiddo i chwi eich hunan, a bod yn rhaid gan hyny i chwi ddefnyddio eich galluoedd er mwyn y gwasanaeth cyffredin, oddiwrth yr hwn yr ydych yn derbyn cymaint o fantais yn eich bywyd eich hunan; a byddwch fel hyny wedi gafaelu yn egwyddor fawr Cristnogaeth, yr hon oedd Paul yn ceisio ei gosod mewn grym. "Aelodau lawer, ond un corff," a phob un yn cyflawni ei ran fechan ei hun yn dda, ac yn cyfranu tuag at gydgordiad a hawddfyd yr oll. Fel hyny y dichon ein bywydau unigol, ac i'n Eglwysi rhyddion gymeryd eu lle priodol ac i fendithio * y cyfundeb i'r hwn y perthynwn!

---

* 1 Cor. 12; Amos 5: 4—24; Gal. 5: 1—13; 6: 9.

UN DUW SYDD.

Un Duw sydd, ac nid yw sôn—am ragor
'N mawrygu'r Iôr cyfion;
Un Duw, ac un da yw Iôn,
Un tyner wrth blant dynion.—I. ab Ioan.

ZOROASTER.

Hyd y gwyddom, ceir crefydd gan bob cenedl, ac mae'r oll o honynt mewn hanfod yn deilliaw o'r un ffynonell. Un yw yr yspryd ond fod y ffurfiau allanol yn amrywio i ateb gwahanol amgylchiadau a chyflwr moesol a meddyliol y bobl. Cristionogaeth sydd un ffurf, a ffurf arall yw Zoroastriaeth--hen grefydd y Persiaid. Dywedaf hen, o herwydd crefydd boblogaidd Persia er y seithfed ganrif O. C. yw Mohametaniaeth. Ychydig o Zoroastriaid sydd yn aros yn Persia heddyw. Y mae y rhan fwyaf (tua 100,000) i'w cael yn yr India, yn enwedig Bombay. Peth arall perthynol i bob crefydd bron yw llyfr cysegredig. Y mae genym ni y Beibl, gan y Mohametaniaid y Coran, a chan y Zoroastriaid eu Zendavesta. Deil Cristionogion, neu o leiaf, y mwyafrif o honynt, fod eu llyfr hwy yn cynwys datguddiad cyflawn o ewyllys Duw. Dywed eraill yn union yr un fath am eu llyfrau hwythau. Ac os yw hyn yn wir am un nis gellir dal yn resymol nad yw yn wir am yr oll. Gwerth mawr y cyfan i'r efrydydd diduedd, fodd bynag yw, nid eu bod yn llythrenol ysprydoledig, ond eu bod yn cynwys dysgeidiaeth cyfundrefnau crefyddol boreuol y byd. Onibae am y Testament Newydd ni fuasai genym ond y nesaf peth i ddim o wybodaeth am fywyd a neges Iesu, a gellir dweyd yr un peth gyda mwy o briodolrwydd am Zoroaster. Onibae am y Zendavesta ni fuasai ond enw yn unig. Nid yw y wybodaeth sydd genym, hyd yn nod yma, ond amherffaith, ac o herwydd hyny y mae'r barnau geir am dano yn amrywio llawer. Deil rhai nad yw ond ffug, neu gread y dychymyg. Dywed ereill iddo fyw filoedd o flynyddau cyn y cyfnod Cristionogol. Y tebygolrwydd yw iddo gael ei eni tua'r flwyddyn 560 C.C. Yr oedd hwn yn gyfnod pwysig yn hanes crefydd. Nid yn mhell o'r un amser ceir y prophwydi yn Israel, y Bwdha yn yr India, Confucius yn China, a Socrates a Plato yn ngwlad Groeg.

Nid yw Zoroaster yn fwy nag unrhyw ddiwygiwr mawr arall wedi dianc rhag y gwyrthiol. Dywedir fod ei enedigaeth wedi ei ragddywedyd, a phan yr ymddangosodd, i nef a daear amlygu eu llawenydd mewn modd rhyfeddol. Cafodd ei demtio hefyd bron yn union yr un fath a Iesu. Cynygiodd y diafol iddo lywodraeth dros wyneb yr holl ddaear am fil o flynyddau, ond iddo fel Faust, fforffetio ei enaid a chefnu ar lais dyledswydd. Darfu i Zoroaster, fel Iesu, goncro, a thrwy hyny daeth yn un o brif arweinwyr crefyddol y byd.

Rhaid cofio fod crefydd yn Persia cyn dyddiau Zoroaster yr un fath ag oedd crefydd yn ngwlad Palestina cyn dyddiau Iesu o Nazareth. Gwaith diwygiwr yw nid creu crefydd newydd ond didoli'r gwir oddiwrth y gau a gwisgo'r gwirionedd mewn ffurf sydd yn ddealladwy i'w oes ei hun. Nid oes genym ond hanes amherffaith ac aneglur iawn am grefydd foreuol Persia, a chyfyngwn ein hunain yma i'w haddysgiadau ar ol iddi gael ei phuro a'i diwygio gan Zoroaster. Ni fydd modd chwaith gwneud rhagor na chyffwrdd yn fyr a rhai o'r prif syniadau ac arferion. Ceisiaf ddewis y rhai hyny fydd yn dangos oreu neillduolrwydd y grefydd ac hefyd ei thebygolrwydd i Gristionogaeth, a dyddorol yw sylwi yn y lle cyntaf fod y Zoroastriaid yn dysgu Un-dduwiaeth, neu Undodiaeth. Daliant nad oes ond un Duw—Creawdwr nef a daear; ond mewn gwrthgyferbyniad iddo ceir Bod arall, a adnabyddir genym ni wrth yr enw diafol neu satan. Enw y cyntaf yw Ahuramazda, ac enw yr ail Ahriman. Y mae'r ddau allu mewn ymgyrch a'u gilydd yn barhaus, a chymer pob dyn ac

anifail, ie, ac hyd yn nod pob gwrthrych difywyd ei ran o blaid y naill neu'r llall. Os da yw cynorthwya Ahuramazda; os drwg cynorthwya Ahriman. Nid oes y fath beth a thir canolog yn bosibl, ond mae'r cyfan wedi ei drefnu yn y fath fodd fel ag i sicrhau buddugoliaeth i'r da yn y diwedd, a chaiff y drwg ei ddileu allan o fodolaeth. Cydnabyddir yn awr yn gyffredinol gan feirniaid goreu y dydd fod y syniad sydd genym ni am ddiafol wedi ei fenthyca i raddau helaeth oddiwrth y Persiaid. Heblaw y ddau allu a enwyd ceir hefyd yn y gyfundrefn Zoroastraidd nifer lluosog o fodau goruwchnaturiol ereill ydynt yn uwch na dyn ac yn îs na Duw. Y mwyaf adnabyddus i ni o'r rhai hyn yw Mithra, yr hwn oedd mewn cryn fri fel gwrthrych addoliad a chyfrwng iachawdwriaeth drwy yr oll o'r Ymherodraeth Rufeinig yn ystod yr ychydig ganrifoedd cyntaf o'r cyfnod Cristionogol. Nid oes yr un amheuaeth nad arno ef i fesur helaeth mae y syniad poblogaidd am Grist fel y Duw-ddyn wedi ei sylfaenu. Un o brif amcanion efrydiaeth y gwahanol grefyddau yw dangos fel y mae elfenau paganaidd, fel yr un dan sylw, wedi dyfod i fewn a chartrefu yn y grefydd Gristionogol.

Peth arall ddysgid yn foreu iawn gan y Zoroastriaid oedd anfarwoldeb yr enaid, ac yn ddiamheu, yr ydym ni, drwy yr Iuddewon, yn ddyledus iddynt yn y cyfeiriad yma eto. Dywedent fod yr enaid ar ol ymadael o'r corph yn aros ar bwys y bedd am dair noswaith. Yn y cyfamser profai boen neu bleser yn unol a'i fywyd ar y ddaear. Yna llenwir enaid y da a pherarogl, ac enaid y drwg ag awyr afiach. Erlidir yr olaf o fan i fan gan finteioedd o ddiafliaid, yna deuant at bont, a elwir pont Chinvat. Gofelir am hon gan gŵn, pa rai ganiatant i enaid y da fyned trosodd, tra y cadwant enaid y drwg draw yn y pellder. Cul iawn yw y bont ar y cychwyn, ond wrth fyned yn mlaen daw yn helaethach a mwy prydferth; cyn cyrhaedd y pen draw daw cydwybod y da i gyfarfod ag ef mewn ffurf geneth luniaidd a glandeg. Arweinia hon ef i baradwys (sylwer mai gair Persiaidd yw paradwys) oddiyno mae tri o risiau—gair da, meddwl da a gweithred dda, yn esgyn i'r goleuni tragwyddol. Yno mae'r enaid i orphwys am bob tragwyddoldeb yn mhresenoldeb Duw. Bydd i enaid y drwg ar y llaw arall gael ei osod mewn tywyllwch a thrueni. Un o brif nodweddion Zoroastriaeth yw yr arferiad sydd ganddynt i wneud i ffwrdd a chorph y marw. Adeiladir twr uchel, a elwir "Twr Distawrwydd," a gosodir y corph ar ei ben fel y byddo'r adar rheibus yn medru cludo'r cnawd i ffwrdd. Cleddir yr esgyrn fydd ar ol wrth droed yr adeilad. Y syniad yw fod angeu i'w briodoli i bresenoldeb ysprydion drwg yn y corph, a phe cleddid ef yn y ddaear neu'r môr, neu pe ei gosodid yn y tân buasai i'r elfenau hyn gael eu halogi, ond wrth ei osod ar ben y twr cedwir hwy yn bur a sanctaidd.

Credir gan lawer fod y Zoroastriaid yn dân addolwyr: nid yw hyn yn gywir. Telir gwarogaeth uchel i'r tân, mae'n wir, ond fel arwydd o oleuni a phurdeb. Oherwydd hyn, ni welir y Zoroastriaid byth yn ysmygu. Dywedir fod tân yn nglyn a'r gwahanol allorau heddyw nad yw wedi bod yn niffodd am ganoedd os nad miloedd o flynyddau. Gellir olrhain yr arferiad hwn yn ol i'r amser boreu pan oedd yn ofynol i gadw'r tân i losgi yn wastadol oherwydd fod y drafferth o'i gyneu mor fawr. Felly yn fynych mae tarddiad naturiol yn myned i golli mewn awyrgylch grefyddol ofergoelus.

Arferiad arall ag sydd o werth i alw sylw ato yn nghrefydd y Zoroastriaid yw yr un sydd ganddynt i wellhau clefydau. Priodolir pob afiechyd i amhurdeb, a phob amhurdeb i bresenoldeb ysprydion drwg. Ceir bron yr un syniad yn y Testament Newydd. Felly, y ffordd effeithiol i adferiad iechyd yw taflu allan yr yspryd aflan. Gwneir hyn mewn amryw o wahanol ffyrdd. Y

mwyaf dyddorol yw yr hon elwir "Y Cylch Swyngyfareddol" (*Magic Circle*). Agorir rhychiau yn y ddaear a llenwir hwy a dwfr yn gymysgedig a rhyw fath o ddiod gyssegredig. Gosodir y claf yn y canol a thaenellir ef a dwfr nes gyru allan yr yspryd drwg yn ffurf cleren, a chan na fedr gerdded yn groes a'r rhychiau rhaid iddo wneud defnydd o'i adenydd, a golyga hyn na fydd yn alluog i ddychwelyd byth mwy.

Yn ychwanegol at y rhai a enwyd ceir nifer o syniadau ac arferion ereill llawn dyddordeb ac addysg, ond rhaid aros fan hyn er mwyn dweyd gair neu ddau wrth derfynu am foesoldeb, neu wedd ymarferol Zoroastriaeth. Delfryd fawr y Zoroastriaid yw purdeb, mewn meddwl, gair a gweithred. Rhed yr egwyddor hon fel gwythien aur drwy ei holl gyfundrefn i gyd. Purdeb yw swm a sylwedd y cyfan. Darfu i'r prophwyd Micah, ychydig yn flaenorol i Zoroaster, symio crefydd i fynu bron yn yr un geiriau: "Dangosodd efe i ti ddyn, beth sydd dda a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw." (6 : 8.)

Yn y cartref gorchymynai Zoroaster gydraddoldeb, ufudd-dod a chariad; mewn masnach, uniondeb a gonestrwydd, ac yn y byd, brawdgarwch a charedigrwydd. Sylwer ar ychydig frawddegau, fel y canlyn—"Purdeb, nesaf at fywyd, yw y peth goreu i ddyn"; "Nid oes bechod gwaeth na gwneud addewid i arall, ac yna ei dori, a dweyd nad yw yn gwybod dim am dano"; "Yr hwn sydd yn gwrthod adferyd yr hyn mae wedi fenthyca, i'w gymydog, pan ofynir iddo sydd ysbeiliwr"; "Y sawl fradycha'r pur drwy dwyll nid oes ond twyll yn ei aros; ei ffordd sydd faith, a'i ddiwedd sydd dywyllwch; ei weithredoedd drwg a'i harweinia ar gyfeiliorn."

Gwelir ffrwyth y grefydd ymarferol hon yn yr India heddyw. Cymer y Zoroastriaid ydynt yn byw yno ran flaenllaw yn mhob symudiad sydd a'i amcan i wella cymdeithas, a chodi'r ddynoliaeth i safle uwch mewn dysg a moesoldeb, ac yn sicr mae unrhyw gyfundrefn sydd yn gwneuthur hyn yn teilyngu gair o barch ar ran Cristionogion, ac yn enwedig y dosbarth hwnw sydd yn credu fod crefydd Iesu yn gynwysedig yn y ddau orchymyn—i garu Duw a charu dyn."

J. Park Davies.

O GWMTILLERY I'R GRAND CANARY.

Tua diwedd mis Medi diweddaf aethum i gyda chyfaill calon i mi o Aberdar, sef, Mr. H. H. Evans, am fordaith i un o ynysoedd y Canaries, a threuliasom wythnos ddyddorol iawn yn Las Palmas a'r cyffiniau.

Er fy mod wrth ymwneud a'm gorchwylion dyddiol yn nghanol peryglon y gorfodir i'r glowr eu gwynebu yn barhaus, rywfodd, gorchwyl tra anhawdd ydoedd myned allan o'm cartref y boreu hwnw, er mai am gyfnod byr o dair wythnos y bwriadem fod yn absenol. Yr oedd posibl-rwydd digwyddiadau tair wythnos fel rhyw Panorama o fy mlaen. Gwisgais wedd y gwron, ond nid wyf yn sicr nad oedd fy llais yn bradychu fy ngwedd pan yn ysgwyd dwylaw fy anwyliaid—y dagrau yn treiglo dros ruddiau fy mhriod a'm plant—ni ddywedaf ragor—cadwaf fy nghyfrinach. Cyfarfod a'm cyfaill yn Crumlin, ac yn mhen ychydig oriau yn cyrhaedd Liverpool. Wedi cinawa, a threfnu am letty dros y nos,

aethom tua swyddfa Elder, Dempster & Co., ac oddiyno tua'r *Landing Stage*. Yno yr oedd llong fawr yn barod i gychwyn allan tua'r America, ac O! olygfa: anwyliaid wedi dod i "ymyl y dŵr" i hebrwng eu hanwyliaid—rhieni a phlant, brodyr a chwiorydd, yn ymadael am byth, yn ddiddadl, luaws o honynt. Adgof byw yn fy meddwl am y boreu yn Hafod-y-llyn. Aethom yr hwyr i'r *Music Hall*; y chwareufa ydoedd, "*My house in order*"—addysgiadol dros ben.

Foreu tranoeth aethom drachefn tua'r *Landing Stage*, nid i weled eraill yn myned i ffwrdd, ond i ymuno a'r nifer fawr fwriadent fod yn breswylwyr y "Batanga" am gyfnod. Yn mhlith y teithwyr yr oedd pedwar ugain a phymtheg o filwyr o gymydogaeth Chatham, yn myned allan i Sierra Leone, a adnabyddid yn y dyddiau gynt wrth yr enw "Bedd y dyn gwyn." Y mae sefyllfa iechydol y lle hwnw yn llawer gwell, ac wedi ei berffeithio i raddau helaeth y blynyddoedd diweddaf hyn. Wedi trosglwyddo holl *luggage* y milwyr i'r bwrdd, cychwynodd y "Batanga" i'w thaith tua chanol dydd. Yr oedd niwl tew yn gordoi wyneb yr afon, a'r *fog-horn* yn chwythu yn barhaus—yn ddigon i "bensyfrdanu dyn"—teithio yn araf iawn yn herwydd y niwl. Ychydig funydau wedi dau o'r gloch yn cael *luncheon*, y pryd cyntaf ar y bwrdd, dechreu da iawn—bwyd blasus ac archwaeth dda.

Buom ffodus iawn i gael *cabin* rhagorol, un ar ochr allanol y llong; yr awyriad yn naturiol drwy'r *port-hole*. Wedi gorphwys y nôs, codais yn foreu, ac wrth edrych allan drwy'r *port-hole* yn canfod llong yn ein pasio, a'i chyfeiriad i'r lle y daethom o hono—Lerpwl, neu ryw borthladd arall. Yn herwydd y niwl tew ordoai wyneb yr eigion nawn ddoe methasom gael golwg ar ddim o diriogaeth hen "Gymru anwyl, gwlad y gân."

Nid oes dim i'w ganfod y boreu hwn ond glesni wyneb yr eigion, awyrgylch weddol glir, ac ambell aderyn ar ei adenydd, megis ar grwydr wedi colli ei gartref, a'i fantell bluog mor wyned a'r ôd.

Dyna swn y gloch yn galw i foreufwyd, y bwrdd yn arlwyedig lawn; y *Menu Card* o'n blaenau yn nodi y gwahanol "*Courses*," a rhyw anesmwythdra o'n mewn yn sibrwd terfysg-yn mhlith yr anweledion coluddawl, fel pe bae yr isaf yn honi hawl flaenaf i'w ymryddhad, a'r truan oedd yn eu mantellu yn sigledig i'r eithaf. Yr oedd fy mhrofiad y boreu hwnw yn debyg i eiddo y diweddar Isaac Lewis foreu tranoeth i'r noson y bu yn llettya yn nhwlc y mochyn—"Dim 'stumog, yn wir." Wedi gadael tueddau Cymru, cliriodd y niwl, ac aeth y môr i anesmwytho, a'i dònau i ymgodi. Yr oedd ambell dòn am ddangos ei hewyllysgarwch i ymolchi traed y rhai hyny o'r teithwyr oeddent ar y dec. Wedi mordwyo diwrnod arall, daethom i awyrgylch glir iawn, a'r môr mor llyfn a glas a darn o wastadedd-dir, yr haul yn gwenu o'i ystafell euraidd, a'r awel yn cludo coflaid o gysuron iechyd da i breswylwyr y "Batanga." Cefais aml ymgom ddyddorol gyda rhai o'r swyddogion milwrol oeddent ar y llong. Disgwyliai un o'r *Sergeants* yn bryderus am ddydd ei ymddatodiad oddiwrth y fyddin—dwy flynedd arall ganddo i gwblhau cyfnod ei ymrwymiad—21 mlynedd. Yn ol ei dystiolaeth ef, y mae pob milwr sydd yn gwasanaethu ar dueddau gorllewinol Affrica, ag hawl i un dydd o *furlough* am bob tri dydd o wasanaeth ar y *coast*; felly, am bob blwyddyn o wasanaeth cânt bedwar mis o ryddhad, oddigerth fod galw uniongyrchol am danynt.

Dyma ddydd Sabbath wedi gwawrio arnom, y Sabbath cyntaf erioed i mi fod ar y môr—cyffiniau y Bay of Biscay. Boreu ardderchog; yr haul yn pelydru ei wenau siriol arnom, a'r môr, hyd y gallwn weled o bob tu, mor llyfn a "gwydr gloew glan."

Dyma'r Sul cyntaf erioed i mi i fod mewn amgylchoedd nad oes un-

rhyw wahaniaeth yn cael ei ddangos tuag at gadwraeth y Sabbath yn wahanol i ddyddiau eraill yr wythnos. "Bwyttawn, yfwn, a byddwn lawen" ydoedd *motto* mwyafrif preswylwyr y llong. Y mae dylanwad y gymdeithas y mae dyn yn gyssylltiedig a hi i'w ganfod yn eglur ar ei fywyd beunyddiol, os ca'r natur ddynol redeg yn rhydd yn ei ffordd ac yn ol ei ewyllys ei hun, buan iawn yr aiff dyn islaw y *level* y mae Cristionogaeth wedi codi a dyrchafu dyn iddi. Anystyriaeth a difaterwch ydoedd yn nodweddu bwrdd y "Batanga." Teimlaf yn ddiolchgar y funyd hon am y ddysgeidiaeth a'r dylanwadau da ydwyf wedi cael fy nghodi ynddynt. Y mae llinell y gwahaniaeth sydd rhyngof a rhai o'r teithwyr yma, i'w briodoli, i raddau helaeth iawn, i ddylanwadau da Cartref, Crefydd, a'r Ysgol Sul. Gwnaeth y *Purser* ymgais deg i adloni'r teithwyr drwy offerynoliaeth y *Gramophone*, yn y *Smoking Room*, ac wedi hyny, ar y *deck*. Chwareuodd rai darnau sylweddol a da, ond rhoddodd i fyny yn herwydd dibrisdod nifer ag oedd yn bresenol. Hwyr y Sabbath hwn canfyddais un o'r golygfeydd mwyaf addurnol a welais hyd gyfod fy mywyd, sef yr haul yn machlud. Gwelais aml dro ddarluniau ardderchog, yn gosod allan yr olygfa brydferth hon, ond wrth fanylu ar y darluniau, meddyliais fod yr arlunydd, fel y bardd, yn cymeryd ei ryddid, ac aml dro yn wastraffus gyda'i liwiau; ond wedi gweled yr olygfa hon heno y mae pob amheuaeth wedi rhoddi ffordd, a'r sylweddol yn brawf fod y darluniau yn bortreadau agos cywir o'r hyn y ceisiai yr arlunwyr eu desgrifio, heb fod unrhyw eithafion yn gorweithio ysgogiadau pwyntil yr arlunwyr. Ychydig fynudau cyn saith o'r gloch, a'm cyfeiriad tua gwlad machlud haul, gwelwn gawr y dydd megis yn myned i'w wely mewn cerbyd o borphor, ac ochrau yr heolydd, hyd ba rai y teithiai, wedi eu hamwisgo â mentyll porphoraidd am bellderoedd anesgrifiadwy; hyd ochrau y ffyrdd addurnedig hyn cyfodai cymylau gwawrddu, a ymdebygent i goedwig yn ei llawn dŵf, wrth edrych ar yr olygfa brydferth hon, hedai fy meddwl yn ol i ddyddiau fy maboed, a dychymygwn fy mod yn gweled y goedwig fechan o goed *fir*, a saif rhwng Plasnewydd a Penywaun, Llwydcoed. Mynych, wrth gyweirio'm camrau tua'm cartref yn Penywaun hyd y *tram*-ffordd, wrth ddychwelyd adref yn ddyddiol o "Ysgol y Comin," yr edmygwn yr olygfa ar y coed tewfrig yn y goedwig fechan hono, a chyda rhyw newydd-deb rhyfeddol, y mae yr olwg addurnol ar y cymylau welaf yn y pellder heno yn fy adgoffa am brydferthwch un o weledigaethau dyddiau fy maboed. Heno eto gwireddir geiriau'r Salmydd—"Gwaith dy fysedd di yw y nefoedd." Rhoddi desgrifiad cywir o liw prydferth yr awyrgylch o gylch machludiad yr haul nis medraf—rhy anheilwng y meidrol i'r ymgais. Yr oedd arwynebedd y môr, i'r gorllewin, ar yr adeg hon, yn anesgrifiadwy; adlewyrchiad pelydrau gogoneddus yr haul yn ei wneud fel darn eang o wastadedd, wedi ei fantellu a gronynau aur; ar yr un adeg, i'r ochr ddwyreiniol ini, yr oedd yr olygfa yn dra gwahanol, ond nid llai rhamantus—yr awyrgylch yn gyfansoddedig o ddau liw—y rhan uchaf o liw glas, dwfn, a'r rhan isaf o liw *purple*, a'r syndod mawr oedd fod adlewyrchiad y lliw desgrifiadol olaf hwn yn gadael ei effaith ar donau y môr ar yr ochr ddwyreiniol i'r llong; yr oedd y môr yn un llafn mawr llonydd o liw *purple*. Nis gwn ai adlewyrchiad o'r lliw porphoraidd ydoedd ar yr ochr orllewinol oedd yr achos o'r effaith weladwy hon, beth bynag, bu yn destyn syndod a rhyfeddod i mi a'm cyfaill. Fy nheimlad pan yw'r olygfa yn diflanu ydyw, "Duw mawr y rhyfeddodau maith, Rhyfeddol yw pob rhan o'th waith." Ar y *deck* hyd wedi deg o'r gloch.—Duw yn llond ystafell y ser.

(*I w barhau.*)

T. J. WILLIAMS.

ADOLYGIAD.

CREFYDD EIN TADAU, gan Tom Williams (Parcwyson), Trecynon, Aberdar. Pris 6c. Darllenwyd sylwedd y llyfr hwn cyn ei argraphu o flaen amryw gymdeithasau, ac yn eu plith o flaen 'Cymdeithas Ymdrechol,' Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, er pleser ac adeiladaeth i'r gwrandawyr. Fe'i cyhoeddir ar gais taer amryw a'i clywsant, a da genym hyny. Mae'n gyfrol gyfoethog o awgrymiadau gwerthfawr, ac yn gosod ger bron, mewn dull hynod ddyddorol, yr elfenau hyny fuont yn gynhaliaeth bywyd ysprydol yn Nghrefydd ein Tadau. Eglura'r awdwr ddiben ei draethawd mewn ychydig frawddegau yn ei ragymadrodd, ac y maent yn werth eu cofnodi. Y maent fel hyn, 'Dau gasgliad syml yn unig hoffem i'r darllenydd dynu oddiwrth y llyfryn: 1. Fod gwahaniaeth hanfodol a phell yn bodoli rhwng duwinyddiaeth a chrefydd. 2. Mai â chrefydd ac nid â duwinyddiaeth yr ymdrinia'r llyfryn.

Eglurhad :—Mae crefydd yn fywyd mewnol ac ysprydol, yn egwyddor gynyddol a pharaol, yn brofiad ac yn fuchedd sanctaidd; tra nad yw duwinyddiaeth ar y gore ond gwyddor esponiadol a damcaniaethol, yn ymberffeithio yn barhaus gyda chynydd profiad—diwylliant a gwybodaeth yn ei swyddogaeth"

Cadwer mewn golwg yr amcan sydd gan yr awdwr ac fe ddarllenir ei draethawd gyda phleser a budd. Mae'n llawn awgrymiadau, yn cyffwrdd a'r sylweddau tragwyddol mewn modd dyddorol ac adeiladol. Traethawd yw mewn rhyddiaeth barddonol o'i ddechreu i'w ddiwedd. Pryner ef, darllener ef.

R. J. J.

PRIODASAU.

Yn Eglwys Cilybebyll, Sadwrn, Gorphenaf 9fed, gan y Ficer, Parch. Morgan Evans Davies, unwyd mewn hardd briodas, Mr. Llewelyn Thomas, Gellinudd, a Miss Margaret Jane Morgan, Alltwen (gynt o Trebanos). Y mae cylch eang o gyfeillion yn dymuno pob llwyddiant i'r par ieuanc yma yn eu bywyd newydd priodasol.

Gorphenaf 23ain, yn Llwynrhydowen, gan y Parch. E. O. Jenkins, Mr. William Evans, Ffynonllewelyn, a Miss Sarah Davies, Camnant—y ddau o blwyf Llandyssul.

MARWOFION.

GORPHENAF 14, yn 88 mlwydd oed, Mrs. Grace Evans, Abertrinant, Llanfihangel Ystrad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams; wrth y drws, gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan Mr. Davies, Ficer Ystrad. Gadawodd ddau fab, tair merch, ac wyrion ar ei hol.

GORPHENAF 18, yn 47, Mount Pleasant Street, Aberdar, Anne, gweddw Thomas Morgan, Cattle Dealer, yn 73 oed, gan adael pedwar mab i alaru eu colled anadferadwy. Gwasanaethwyd ar ddydd yr angladd, yn y tŷ gan R.J.J., ac yn eglwys St. Fagan's gan y Ficer.

GORPHENAF 22, yn 81 mlwydd oed, Mrs. Sarah Rees, Nantygelli, Dihewyd. Chwaer ydoedd i'r diweddar Sam Howells, Dolboidy, a David Howells, Ystrad House, Llanfihangel Ystrad. Yn Berthlwydfach, Gartheli, bu hi a'i phriod yn byw. Bu hi fyw yno am amryw o flynyddau ar ol claddu ei phriod, a henaint a methiant barodd iddi ymadael oddi yno ychydig flynyddau yn ol, a dod at ei nhith yn Nantygelli. Cafodd yma bob gofal a thynerwch, ac yr oedd hyny o werth mawr i un oedd wedi myned yn rhy analluog i gadw tŷ ei hunan. Gwerthfawrogai hithau hyny, a theimlai yn hapus yn ei chartref newydd. Nodweddid hi gan fywiogrwydd a diwydrwydd. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Eglwys Llanfihangel Ystrad. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, a chyflawnwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan Ficer Ystrad.

GORPHENAF 24, Mrs. Ellen Lewis Davies, anwyl briod Mr. Watkin Davies, Caeronen Farm, Cellan, yn 55 mlwydd oed. Enw dibriod Mrs. Davies, a'r enw'r adnabyddid hi wrtho'n, mhell ac agos, oedd Miss Lewis, Maesgwilym, Cellan, ac ni fu ei bywyd priodasol ond byr, ac heb ond ychydig hapusrwydd, oherwydd cafodd ei dal gan afiechyd yn lled fuan ar ol dydd ei phriodas, ac ni fu ei bywyd priodasol ar ei hyd ond rhyw saith mis, er tristwch calon, yn mlaenaf i'w phriod, ac wedi hyny i'w pherthynasau lawer, ac yna i gylch eang ei holl gydnabod. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Lewis, Tyddyndu, Dihewyd, ond mabwysiadwyd hi pan nad oedd hi eto ond plentyn gan Mr. a Mrs. Davies, Trebanne, Cellan, chwaer ei thad a'i phriod, a bu o gysur a gwasanaeth anrhaethadwy iddynt hyd eu bedd, ac yr oedd eu coffadwriaeth, ac hyd y nod mangre eu preswylfod mor eithafol gyssegredig ganddi hyd y diwedd. Tebyg nad oedd hi, mwy nag eraill, heb ei gwendidau, ond sicr yw fod ganddi lawer o rinweddau a wna ei choffadwriaeth yn anwyl gan lawer tra byddont ar y ddaear. Yr oedd yn aelod o eglwys fechan Caeronen. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent capel Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

AWST 5, Mrs. Elizabeth Owen, Salem, Felinfach, yn 65 mlwydd oed. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu er's amryw o flynyddau, a hithau wedi ei gadael i ddwyn beichiau ei bywyd hi a'i phlant; ymwrolodd, a dygodd hwy mewn modd teilwng a chanmoladwy iawn. Er nad oedd yn troi mewn cylch eang, eto yr oedd yn adnabyddus i gylch helaeth iawn. Gyda hi yr oedd llawer o blant ysgol ddyddiol Felinfach yn cael eu ciniaw, ac y mae gan lawer cenhedlaeth o'r plant fu yno gof anwyl a pharchus am dani. Yr oedd yn hapus yn eu plith, ac yr oedd ei hynawsedd a'i thiriondeb yn gwneyd y plant yn hapus o'i chwmpas hithau. Gwnaeth ei goreu hefyd gydag eglwys Rhydygwin. Yr oedd yn barod i roddi ei gwasanaeth bob

amser, ac y mae ei symudiad wedi gwneyd i ni deimlo fod lle gwag ar ei hol. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent eglwys Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn. Gadawodd un mab, dwy ferch, ac un chwaer mewn galar mawr ar ei hol.

AWST 5, yn 52 oed, Mrs. Catherine Evans, anwyl briod Mr. Daniel Evans, Porth Hotel, Llandyssul. Ganwyd Mrs. Evans yn y Lowtre, ger Llanwnen, ac yr oedd yn ferch i Mr. John Jenkins, Glaslwyn, gynt o Gwarllwynoedos, a'r ddiweddar Mrs. Elizabeth Jenkins. Mabwysiadwyd Mrs. Evans, a hi eto yn eneth ieuanc, gan ei hewythr, Mr. Thomas Evans, y Porth, un o foneddwyr hawddgaraf y fro, yr hwn sydd a'i goffadwriaeth yn fyw o hyd yn yr ardal. Felly fe gafodd Mrs. Evans gyfleusderau arbenig i ddadblygu y rhinweddau aml hyny oeddynt mor amlwg yn ei chymeriad. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn wael er ys amryw fisoedd, ond nid oeddym wedi ymbarotoi i ffarwelio â hi mor fuan. Nid oedd wedi cyrhaedd dyddiau henaint: suddodd ei haul yn gynar yn mhrydnawnddydd ei hoes. Ni fu erioed wraig fwy hawddgar a serchog. Yr oedd bob amser a gwên ar ei hwyneb a gair caredig ar ei gwefus. Taenai gysur o'i hamgylch yn mha le bynag y byddai. Yr oedd yn un o'r ychydig hyny sydd yn awr wedi eu gadael fu'n gynorthwy i sefydlu'r achos Undodaidd yn Llandyssul o dan arweiniad Gwilym Marles a'r Parch. T. Thomas. Parhaodd yn ffyddlon drwy'r blynyddoedd — yn weithgar a llafurus. Bu yn Drysoryddes a Diacones eglwys y Graig, ac nid oedd y *wreath* osodwyd ar fan fechan ei bedd gan ei chydaelodau ond amlygiad o'r anwyldeb deimlid tuag ati. Gwnai ei daioni yn ddistaw a dirodres, ac y mae'n ddiameu fod hanes llawer o'i gweithredoedd da wedi ei gladdu yn ei bedd. Claddwyd yr hyn oedd yn farwol o honi y dydd Llun dilynol yn mynwent Pantdefaid, ac nid yn aml y dilynir arch neb i dŷ ei hir gartref fel y gwnaed y dydd hwn: yr oedd y cynhebrwng lluosog, y blodeudyrch orchuddient ei harch, a'r gruddiau llaith yn amlygiadau o'r cariad a'r parch fynwesid tuag ati. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas; rhoddwyd emyn wrth y drws gan y Parch. E. P. Jones, vicer Moylgrove; dechreuwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins; pregethwyd gan y gweinidog; a gorphenwyd wrth lan y bedd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Gadawodd briod, tri phlentyn, tad, chwaer a pherthynasau eraill mewn galar mawr. Diddanwch y nefoedd a fyddo trostynt.

AWST 10, Mrs. Ann Harries, Lodge y Brynog, Llanfihangel Ystrad, yn 75 mlwydd oed. Ganwyd yr ymadawedig yn Pentrerhys, plwyf Llanwenog. Yno yr oedd pan yr ymbriododdd, ac yno y bu hi a'i phriod a'i phlant yn byw hyd nes y bu rhaid iddynt ymadael oddi yno. Dioddefasant ar ol Etholiad 1868, fel llawer eraill ag oedd yn ddigon cadarn y pryd hwnw i fod yn ffyddlon i'r goleuni oedd ynddynt. Peth truenus oedd gorfod cefnu ar hen gartref oedd wedi myned yn anwyl iddynt, a hen ardal lle yr oeddynt wedi gwneyd nifer luosog o gyfeillion mynwesol. Ond yr oedd y drwg oeddynt wedi wneyd yn rhy fawr yn ngolwg rhywrai i wneyd cyfrif o ystyriaethau felly, a chawsant eu taflu allan. Yn ffodus, cawsant ddrws agored yn Tangaer, ffermdy yn mhlwyf Ciliau Aeron. Symudasant oddiyno i fferm arall o'r enw Lluest, yn yr un plwyf. Tra yno bu farw y gwr, ac yn mhen ychydig flynyddau ymadawodd yr ymadawedig a'i phlant a'r fferm, a daeth hi ac un o'i mherched i fyw i Lodge y Brynog. Er fod Ciliau Aeron yn ardal bell o'u hen gartref, a dieithr hollol iddynt pan symudasant yno, eto ni fu achos i'r ymadawedig a'i theulu deimlo yn hir mai dieithriaid oeddynt yno. Enillasant serch ac edmygedd pawb yn yr ardal, oblegid

eu hyspryd hynaws, eu teimlad caredig, a gonestrwydd eu bywyd. Yr oeddynt yn fuan yn mhlith y mwyaf parchus yn yr ardal, ac y maent wedi parhau i fod felly. Prawf o hyny oedd y nifer luosog ddaeth i dalu y gymwynas olaf i'r ymadawedig. Gwan o gorph oedd yr ymadawedig er's blynyddau, a chafodd gystudd maith yn y diwedd. Bu y plant yn dirion iawn tuag atti, yn enwedig ei mherch oedd yn cartrefu gyda hi. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. D. Evans, Cribyn. Gadawodd un mab, pump merch, ac wyrion mewn galar ar ei hol.

PENILLION

Er Cof am Mr. DAVID THOMAS, Castellhywel Arms, Llandyssul.

(*Gwel Rhifyn Awst*).

Un llafurus ac ymroddgar
Ydoedd Dafydd yn y byd ;
Un o galon gymwynasgar,
Llon a theg ei wyneb pryd ;
'Roedd bob amser yn bresenol
Yn y Cwrdd a'r Ysgol Sul,
A gofalai yn wastadol
I roi parch i'r llwybr cul.

Nid myn'd yno i efelychu
Pobl eraill a wnai ef,
Ond fe elai er dyrchafu
Ei anwylaf Dad o'r nef.

Ond yn awr mae'r gweithiwr ffyddlon
Fu yn ufudd ddwyn y groes,
Wedi rhoddi pob gofalon
Iddo ef yr hwn a'i rhoes.
Ond 'roedd tegwch ei wynebpryd,
A'i barodrwydd yn mhob gwaith ;
Fel pe'n dweyd nad oedd ei fywyd
Ar y ddaear yma'n faith ;
Ond rhyw chwithdod wedi'r cyfan
Oedd rhoi Dafydd yn y bedd,
Ond mae ef yn cael ei gyfran
Heddyw'n iach wrth fwrdd y wledd

Ni ddaw mwyach boen na thristwch
I gyfnewid dim o'i wedd,
Ond try pobpeth yn ddedwyddwch
Yn y wlad tu draw i'r bedd ;
Boed i Dduw roi nerth a chysur,
I'w berth'nasau dan eu croes,
Ac i'w cadw ar y llwybyr
A'i harweiniodd ef drwy'i oes.

—*Cyfeilles.*

MANION AC HANESION.

YMDDENGYS erthyglau dyddorol ar arweinwyr gwahanol grefyddau y byd, yn YR YMOFYNYDD, gan y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D. Gweler y gyntaf ar Zoroaster yn y rhifyn hwn.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Sul, Mehefin 19, dan arweiniad hapus a deheuig yr arweinydd ffyddlon, Mr. Willie Williams, cynaliwyd Cymanfa Ganu leol ; a chafwyd canu da o'r dechreu i'r diwedd, yn gymysg ag ychydig areithiau byrion ac i bwrpas, gan amryw o'r brodyr. Diolch am dipyn o newid—dyma wir enaid crefydd.

SADWRN 15,yn Nghapel Gellionen, cynaliwyd yr Wyl Dê flynyddol, pryd y rhan-gymerodd tua phump cant a haner o'r danteithion blasus, parotoedig gan Mr. a Mrs. William Morgan, Rock House, Trebanos. Dymunir diolch yn fawr i bawb fu yn llafurio i wneud yr wyl mor llwyddianus, dan hin fu dipyn yn anffafriol. Chwareuwyd darnau clasurol gan Seindorf Arian Trebanos, dan arweiniad y *Bandmaster*, Mr. H. H. Morgan.

SUL, Awst 14, talodd y Parch. T. J. Jenkins, Hinckley, yr ail ymweliad a'i gyn-eglwys, y Graig a

Gellionen. Pregethodd yn y boreu oddiar y geiriau awgrymiadol, "Ac ni bum anufudd i'r weledigaeth nefol"; ac yn yr hwyr, oddiar yr adnod brydferth, "Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw." Digon yw dweyd iddo bregethu yn rhagorol; a cherddodd ar hyd y llwybrau hyny, y medrai y plantos ei ddilyn, yn gryf, eto yn syml; yn rhesymegol, eto yn naturiol ac addysgiadol iawn. Cafwyd llonaid capel o bobl, foreu a hwyr, a llawen oedd gan bawb gael cwrdd a Mr. Jenkins, ac nid llai ei lawenydd yntau oedd i gael y fraint i ysgwyd dwylaw cynes a'i hen ffryndiau. Hyderwn y daw eto i roi tro am danom, fel ac i gadw mewn cof yr oriau difyr hyny ddiflanasant i'r gorphenol.

LLONGYFARCHWN Mr. David Lloyd, 20, Clive Terrace, Ynysybwl (brawd y diweddar Mr. Spencer Lloyd, Treorky), ar ei waith yn enill y *First Class Certificate of competency as Manager of a Mine*." Galluoga hon ef i ddal y swydd uwchaf ynglyn a glofa. Llwyddiant fo ei ran eto yn y dyfodol.—J. P. D.

Y PARCH. PENRY EVANS.—Dywedir i'r boneddwr hwn, yn ddiweddar, ddesgrifio Undodiaeth fel credo baldorddwyr ac atheistiaid,—"*a creed of praters and atheists.*" Dywedwn ninau mai tafod enllib yn unig allai ddywedyd peth o'r fath.

DIFATERWCH EGLWYS. —— Yn Bethesda'r Fro, o leiaf, dyna fel y clywsom, a'r Parch. Powell, Caerdydd, oedd yn gwasanaethu. Ar y diwedd eir allan; trŷ pob un, yn debyg, i gyfeiriad ei gartref ei hunan, gan adael Powell i ddyfeisio'r cynllun gore fedrai am giniaw. Eb efe wrth y dyn oedd yn gofalu am y capel, pan oedd yn cloi'r glwyd,—"Ydw i'n myn'd i Gaerdydd i giniaw, dewch gyda fi."

Y MAE y "Llan," papyr eglwysig, yn llawenhau yn fostgar, am na chafodd Caplaniaid Uchel Siryddion Sir Aberteifi a Chaernarfon, ran na chyfran yn y gwasanaeth ar achlysur cynhaliad y brawdlysoedd y dydd o'r blaen. "Naddo, bid siwr," meddai, "Be' nesa'"? Pan ddaw'r ateb, diau y bydd gorfoledd y "Llan" wedi ei droi yn wylofain, adeg y gosodir Dadgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys yn Nghymru ar ddeddflyfrau Prydain Fawr.

Y WEINIDOGAETH.—Yr oedd tri o gedyrn ieuainc Cymru yn dechreu eu gweinidogaeth dydd Sul, Awst 7, Matthew Watkins, yn Moneyrea; John Davies, yn Belfast, y ddau yn yr Iwerddon; a James Glyn Davies, yn H. D. Cwrdd, Aberdar. Dymunwn mawr lwyddiant i'r tri. Dyma destynau Mr. Glyn Davies yn y bore—1 Sam., 15 : 20 : "Rhodiais yn y ffordd y'm hanfonodd yr Arglwydd iddi; yn yr hwyr—Marc 1 : 3 : "Llef un yn llefain," &c. Deallwn fod dau Gymro yn flaenorol yn yr Iwerddon, sef Mr. D. J. Williams, ac S. E. Bowen.

ABERDAR.—Terfynodd Mr. Carrara Davies ei chwe' mis o wasanaeth yn yr Hen Dy Cwrdd, Gorph. 24. Rhoddodd ei wasanaeth yn ystod yr amser hwnw foddlonrwydd mawr, a chredwn ei fod wedi enill serch heu ac ieuanc yn gyffelyb. Sul y 31ain, gwasanaethwyd gan Mr. Matthew Watkins.

CEFNCOED.—Y mae Mr. Carrara Davies wedi derbyn galwad unfrydol i fod yn olynydd i'r cyfaill Hathren yn y lle hwn. Eiddunwn iddo lwyddiant mawr. Deallwn y bydd yn cychwyn ar ei weinidogaeth tua dechreu Medi.

DEALLWN fod y Parch. Tudor Jones, PH. D., gynt o Abertawe, ac wedi hyny, o New Zealand, wedi dechreu ar ei waith fel gweinidog yn Llundain. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei gylch newydd, a gobeithiwn y gwel ei ffordd, ambell dro, i droi ei wyneb i gyfeiriad gwlad ei enedigaeth. Y mae eisieu help yn Nghymru y dyddiau hyn, yn enwedig ar dudalenau YR YMOFYNYDD.

DR. LEWIS EDWARDS.—Dathlwyd yn ddiweddar ganmlwyddiant genedigaeth Dr. Lewis Edwards, M.A., Prifathraw Coleg y Methodistiaid yn y Bala. Desgrifiwyd y Dr. fel

dyn mwyaf y ganrif, a thebyg ddigon fod y Methodistiaid yn credu hyny, er yr ymddengys yn anhawdd gwybod sut y bwriwyd y llinyn mesur drosto. Yr oedd yn ddyn mawr, yn ddyn galluog, ac yn ddyn da; ac ystyriwn ei "Draethodau Llenyddol" cystal a dim yn yr iaith. Bu farw Gorph. 18, 1887. Mab iddo oedd Prifathraw cyntaf Coleg Aberystwyth, Thomas Charles Edwards, M.A., a dywedir mai efe oedd yr Anghyddffurfiwr cyntaf a gafodd fynediad i Goleg Rhydychen. Camsyniad yw'r haeriad mai Lewis Edwards oedd yr Anghyddffurfiwr cyntaf i ddwyn ei M.A. gydag ef i Gymru. Dygodd Dr. Lloyd, Caerfyrddin, ei M.A. gydag ef o Glasgow yn 1833, ac yr oedd David Rees wedi myned a'i M.A. a'i M.D., i Ferthyr rai blynyddau cyn hyny.

"Deg Gorchymyn" Newydd.—O'r braidd y mae eisieu dywedyd mai eiddo Ianci ydyw y gorchymynion—meistr i'w weithiwr. Gallant fod o ddefnydd, er hyny, os dilynir hwy.

1. Paid dweyd celwydd; mae'n wastraff amser i ti a minau. Yr wyf yn sicr o dy ddal yn y diwedd, a bydd hyny yn ddrwg i ti a minau.

2. Edrych ar dy waith, nid ar y cloc. Gwna gwaith dydd hir y dydd hir yn fyr, a gwaith dydd byr wnaiff fy wyneb i yn hir.

3. Rho fwy nag a ddisgwyliaf, a thalaf fi fwy na ddisgwyli. Gallaf fforddio dy gyflog, os gwnei di gynyddu fy mhroffit i.

4. Yr wyt mewn dyled cymaint it' dy hunan, fel na elli fforddio bod mewn dyled i neb arall. Cadw maes o ddyled, neu bydd raid i ti gadw maes o fy *shop* i.

5. Nid digwyddiad o gwbl yw anonestrwydd. Nid yw pobl onest ddim yn gweled temtasiwn pan gwrddant ag ef.

6. Meindia dy fusnes dy hunan, ac yn mhen tipyn bydd genyt fusnes dy hunan i'w feindio.

7. Na wna ddim a niweidia dy hunanbarch. Mae'r sawl sy'n foddlawn lladratta *drosof* fi yn alluog i ladratta *oddiwrthyf* fi.

8. Nid fy musnes i yw yr hyn a wnei'r nôs; ond os bydd oferedd y nôs yn effeithio ar dy waith dranoeth, ac os byddi'n gwneud ond haner cymaint ag y byddaf fi'n gyfiawn yn gofyn, ni pharhei haner cyhyd ag a obeithiaist.

9. Na ddywed wrthyf yr hyn a garaf glywed, ond yr hyn a ddylwn glywed. Nid wyf am gadw gwas i borthi fy malchder, ond y mae arnaf angen un i chwyddo fy nhrysor.

10. Paid cicio os ciciaf fi; os wyt ti'n werth dy ddisgyblu yr wyt yn werth dy gadw.

Gwelliant Gwall.—Yn hanes y cyfarfodydd blynyddol yn Mrondeifi, mae'n ddrwg genym fod enw y Parch. D. G. Rees, Bridgend, wedi ei adael allan yn gyfangwbl fel un oedd yn bresenol yn ein cyfarfodydd ac yntau wedi cymeryd rhan mor flaenllaw ynddynt. Nid ydym yn gwybod sut y dygwyddodd yr amryfusedd, ac nid oes genym bellach ond dywedyd unwaith eto ei bod yn ddrwg genym am dano, ac erfyn am faddeuant Mr. Rees.—R. C. Jones.

DYN YW DYN ER HYN OLL.

A ydyw aur a mwynderau—yn rhoi
Natur uwch i fodau?
A yw gwel'd a charu gwyr—tlawd,
moesol
Yn amhriodol mewn ymerawdwyr?
Prisier dyn fel dyn, ai doeth
Ei enaid, ynte annoeth,
Nid ei aur all ei wneud o,
Na theyrnas roi gwerth arno.

—Elfyn.

MWSWG.

A'i fyrdd myrdd o wyrdd flew mân—
wele dwf
Fel edafedd sidan;
Amwisg glyd yw'r mwswg glân
Guddia henaint gwedd anian.

Anad.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd : Y Parch. D. G. Rees, Bridgend.

Is-lywydd : D. Tyssul Davies, Ysw., Aberdar.

—CYNHELIR—

CYFARFODYDD CHWARTEROL

Yr uchod, yn nghyd a CHYFARFODYDD SEFYDLU y Gweinidog etholedig, MR. JAMES GLYN DAVIES, o Goleg yr Home Missionary, yn HEN-DY-CWRDD, ABERDAR, ar ddyddiau MERCHER a IAU, HYDREF 12 a 13. Ymddengys manylion pellach yn ein rhifyn nesaf.

T. ARTHUR THOMAS, Ysgrifenydd.

TRAETHODYNAU UNDODAIDD

AR WERTH.

"YR EFENGYL YN OL UNDODIAETH,"
Y Parch. J. Minot Savage, D.D.

"Y DYN CRIST IESU,"
Y Parch. R. J. Jones, M.A.

"CREFYDD CYMRU FYDD,"
Y Parch. W. James, B.A., J.P.

"TUEDDIADAU'R OES,"
Y Parch. David Evans.

"YR EGLWYS A'I GWAITH,"
Y Parch. T. J. Jenkins.

"DDOE, HEDDYW, AC YFORY MEWN CREFYDD,"
Y Parch. W. Tudor Jones, Ph.D.

"ATDYNIAD CREFYDD RYDDFRYDIG,"
Y Parch. D. Delta Evans, golygydd y "Christian Life."

Gellir cael yr uchod oddiwrth OLYGYDD Yr Ymofynydd, Llandyssul.
Pris Ceiniog yr un. Telir y cludiad am ddwsin neu ragor.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.
Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE. LONDON. N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING
a Speciality.

Ben. Evans & Co.
SWANSEA. LTD.